Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

08/11/2021

Annwyl gyfaill,

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Diolch am y cyfle i ymateb ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r ymgynghoriad ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eich Sir. Mae'r Coleg Cymraeg yn arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru, ac yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf.

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 ac erbyn hyn mae darpariaeth helaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog wedi ei ddatblygu ar draws pob prif bwnc a ddarperir ym mhrifysgolion Cymru. Yn 2018 derbyniodd y Coleg gyfrifoldeb am Addysg Bellach a Phrentisiaethau ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn y sectorau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gwaith y Coleg felly yn dibynnu'n helaeth iawn ar lwyddiant y sector addysg orfodol i gynnig arlwy addysg Gymraeg deniadol a hygyrch, a thrwy hynny ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion fel eu bod yn gallu elwa yn llawn ar y cyfleoedd sydd iddynt barhau a'u hastudiaethau ôl-16 yn ddwyieithog. Mae'n allweddol felly bod y Cynlluniau Strategol sirol yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer twf addysg Gymraeg a chefnogi'r twf hwnnw.

Mae tair elfen y byddai'r Coleg yn dymuno i chi ystyried yn benodol:

## Dilyniant Ieithyddol (deilliant 3 yn bennaf)

Ar hyn o bryd does dim trafodaeth sylweddol yn eich cynllun am y ddarpariaeth addysgiadol i ddysgwyr wedi iddynt adael y sector gorfodol. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gyflawn credwn yn gryf bod angen sylw i'r llwybrau dilyniant ymlaen i'r chweched dosbarth / colegau Addysg Bellach ac wedi hynny, lle bo'n berthnasol, i brifysgolion a'r byd gwaith. Mae angen felly i'r cynlluniau roi ystyriaeth lawn i gyfraniad chweched dosbarth, colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau at lwyddiant y Cynllun Strategol a, lle bo hynny'n berthnasol, nodi'n glir targedau dilyniant. Prin yw'r data a gyflwynir yn eich cynllun, ac awgrymir y dylech gynnwys data a thargedau meintiol sy'n dangos y sefyllfa gyfredol a thargedau yn dangos eich cynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. O ran arfer da, credwn bod cynllun drafft Casnewydd yn cynnig enghraifft dda o'r math o ddata a thargedau meintiol y gellid eu cynnwys yn eich cynllun terfynol.

## Cymraeg fel Pwnc a Chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg (deilliant 4)

Prin yw'r targedau a'r cynlluniau a geir yn yr adran hon i gefnogi a datblygu'r Gymraeg fel pwnc. Mae angen cynllunio'n bwrpasol ac yn rhagweithiol i sicrhau bod unrhyw ddisgybl sy'n dymuno astudio'r pwnc at Safon Uwch yn cael y cyfle i wneud. Dylid rhoi ystyriaeth deg a chyson i'r Gymraeg fel pwnc wrth gynllunio opsiynau Safon Uwch. Mae angen nodi sut y bwriedir mynd ati i greu a chynnal diddordeb disgyblion yn y pwnc. Dylid hefyd gymryd mantais lawn o'r cyfleoedd mae'r Coleg Cymraeg a phartneriaid eraill yn eu cynnig fel rhan o gynllun cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc (dan arweiniad Llywodraeth Cymru).

Mae'r patrwm hynny hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr ymdriniaeth o faint o ddisgyblion sy'n cyflawni cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen cynllun bwriadus yn y maes hwn a chydweithio effeithiol gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau argaeledd cymwysterau yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol, a gynhigir i ddisgyblion o 14 mlwydd oed ymlaen.

## Y Gweithlu Addysg (deilliant 7)

Mae'r Coleg wedi cyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru am yr heriau sy'n deillio o gwymp yn nifer o hyfforddeion addysg sy'n cymhwyso i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. Tra bod eich cynllun yn nodi pwysigrwydd sicrhau gweithlu addas ar gyfer yr ysgolion presennol (a newydd) a ddatblygir yn sgil y cynlluniau hyn, arwynebol ar y cyfan yw'r drafodaeth am y maes hwn. Beth yw'r sefyllfa o ran y gweithlu addysg o fewn eich sir ar hyn o bryd? Faint yn fwy o athrawon a staff cynorthwyol fydd eu hangen arnoch er mwyn gwireddu'r cynlluniau ar gyfer y twf a nodir yn eich cynllun? Pa gynlluniau sydd gennych i rannu'r dadansoddiad yma gyda'r Llywodraeth a'r Cyngor Gweithlu Addysg er mwyn sicrhau fod digon o gyflenwad o staff cymwys i ateb y galw?

Mae'r pwyntiau am y gweithlu addysg yn ei ystyr ehangach hefyd yn berthnasol i ddeilliant 1 a datblygiad darpariaeth feithrin, a byddwn fel Coleg yn cydweithio gyda cholegau addysg bellach a'r Mudiad Meithrin i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant fel bod cyflenwad addas o staff fydd yn gallu darparu gofal plant ac addysg feithrin ddwyieithog o'r radd flaenaf.

Mae'r Coleg yn dymuno'n dda iawn i chi wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r Cynlluniau Strategol yn rhan gwbl allweddol o wireddu'r uchelgais cenedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Edrychwn ymlaen yn fawr at wneud ein rhan i gyfrannu at y nod hwnnw ac adeiladu ar lwyddiant y sector gorfodol wrth ddatblygu addysg Gymraeg hygyrch a deniadol ym mhob cymuned.

Yn gywir iawn,

Ioan Matthews

Dr Ioan Matthews

Prif Weithredwr